# AR DDU A GWYN


E-newyddlen Ymddiriedolaeth Prawf Cymru

## Rhifyn 6

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 2 | Adeiladu ar y gorau |
| 3 | Diogelu gwasanaethau lleol |
| 5 | Cyfarfod y prif weithredwr dros dro newydd |
| 6 | Y ffordd y bydd y strwythur newydd yn gweithio |
| 7 | Cynrychiolwyr yn dweud eu dweud |
| 8 | Prawf yn achub fy mywyd |










# ADEILADU AR Y GORAU

Mae Cadeirydd cyntaf Ymddiriedolaeth Prawf newydd Cymru yn disgrifio'i swydd newydd fel "cyfle gorau fy mywyd".

Nid dieithryn i'r gwasanaeth yw Susan Fox, o'r Mwmbwls ger Abertawe, a fydd yn arwain bwrdd o 11 yr Ymddiriedolaeth newydd a ddaeth i fodolaeth ar 1 Ebrill – mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad o'r gwasanaeth prawf.

Mater o ddychwelyd adref yw hyn i'r fam o bump 59 oed, a oedd cyn hyn yn gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe, a ddywedodd: "Mae bod yn ôl gyda'r gwasanaeth prawf yn golygu llawer i mi'n bersonol.

"Mae creu Ymddiriedolaeth Prawf newydd Cymru yn ddatblygiad cyffrous dros ben ac yn golygu y gallwn adeiladu ar y gorau o bob cwr o'r wlad. Rwy'n gwybod fod yna lawer o arfer da yng Nghymru."

Ganwyd Sue ym Malta a'i magu yn Plymouth a Wolverhampton cyn astudio Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Hull ac yna radd bellach mewn Astudiaethau Cymdeithasol Cymhwysol.

Aeth ei lleoliad gyda'r gwasanaeth prawf â hi i Brifysgol Abertawe a chwympodd mewn cariad gyda'r ardal: "Roeddwn i wastad yn gwybod y byddwn yn dychwelyd i Dde Cymru," meddai.

Ond yn gyntaf dechreuodd ar yrfa ym maes prawf ar Humberside lle dyrchafwyd hi i fod yn uwch swyddog prawf a chafodd brofiad o bob agwedd ar waith prawf, o garchardai i ad-dalu cymuned.

Daeth i Abertawe dros 21 mlynedd yn ôl fel prif swyddog prawf cynorthwyol gyda Gwasanaeth Gorllewin Morgannwg, fel yr oedd ar y pryd, cyn cael secondiad i'r Swyddfa Gartref am saith mlynedd fel cydgysylltydd hyfforddiant rhanbarthol Cymru. Rhoddodd hynny ddyletswyddau cenedlaethol iddi ac roedd hefyd yn rheolwr prosiect ar gyfer datblygu'r Diploma mewn Astudiaethau Prawf, y cymhwyster proffesiynol i swyddogion prawf.

Roedd swydd nesaf Sue yn ôl yn Ne Cymru, yn rheoli'r prosiect o uno'r tri gwasanaeth ym Morgannwg, cyn iddi adael y gwasanaeth yn 2001 i gadeirio'r bwrdd iechyd lleol gyda'i gyllideb o fwy na £300 miliwn a'i gyfrifoldeb am gomisiynu llu o wasanaethau iechyd.

Arhosodd yn arolygydd gwasanaethau prawf cysylltiol er ei bod yn dweud fod ei phrofiad gyda'r GIG wedi bod yn amhrisiadwy iddi hefyd.

Meddai: "Roedd yn bwysig gan fod gwaith partneriaeth yn hollbwysig wrth gyflwyno gwasanaethau a bydd hynny hefyd yn hollbwysig i'r gwasanaeth prawf newydd.

"Ond rwy'n siŵr fod dyfodol llewyrchus dros ben yn wynebu'r gwasanaeth prawf yng Nghymru gan fod yr Ymddiriedolaeth newydd yn rhoi llwyfan i ni fel y trydydd o ran maint yng Nghymru a Lloegr ac un sydd â hunaniaeth genedlaethol.

"Os ydym o ddifrif ynglŷn ag amddiffyn y cyhoedd a chyflwyno gwasanaethau i ddioddefwyr a lleihau aildroseddu, yna rhaid i'r arferion fod yn iawn; rhaid canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd rhwng y troseddwr a'i reolwr.

"Rwy'n credu mai gwaith y bwrdd yw creu amgylchedd lle mae arfer da'n ffynnu a lle mae staff yn teimlo eu bod yn rhan o bethau.

"Wnes i erioed ddychmygu y byddai hyn yn digwydd i mi ond rwyf wedi ymrwymo'n llwyr iddo ac mae'n gyfle euraid."

Mae strwythur y bwrdd newydd hefyd yn galondid iddi, gan y bydd pob un o'i aelodau yn cynrychioli un o'r 10 Uned Darparu Lleol ar draws Cymru a'r llall, o Ogledd Cymru, yn gyfrifol am y tair canolfan Ymyriadau ar draws y wlad.

Ychwanegodd: "Bydd cael cyswllt lleol cryf gyda'r bwrdd cenedlaethol yn hynod o bwysig neu fe allai ymbellhau o'r staff a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethau."

Mae Sue yn disgrifio'i hun fel un sy'n dod o deulu prawf go iawn ac mae ei gŵr Ian hefyd yn gyn brif swyddog prawf cynorthwyol yng Nghanol Morgannwg sydd wedi gweithio i'r Swyddfa Gartref fel Rheolwr Rhanbarthol Cymru.



# DIOGELU GWASANAETHAU LLEOL

Penodwyd pum aelod cyntaf Bwrdd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru.

Cred pob un ohonyn nhw fod diogelu gwasanaethau lleol a lleihau aildroseddu'n flaenoriaethau pwysig.

**Christine Court**

Roedd Christine Court MBE, YH, o Faesteg, yn aelod o fwrdd Ymddiriedolaeth Prawf De Cymru.

Dyfarnwyd MBE i'r gyn Bennaeth Therapi Galwedigaethol gydag Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg, i gydnabod ei gwasanaethau i'r GIG.

Yn gynharach yn ei gyrfa, gweithiai Christine i'r gwasanaeth carchardai yn Llundain lle cymerodd ddiddordeb arbennig mewn adsefydlu defnyddwyr cyffuriau.

Mae'n ynad heddwch profiadol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac yn edrych ymlaen at ei swydd newydd a'r her strategol o gydgordio'r pedwar diwylliant prawf yng Nghymru.

Ychwanegodd Christine: "Mae gan y Gwasanaeth Prawf swyddogaeth hollbwysig ac mae gennym Wasanaeth Prawf rhagorol gyda staff proffesiynol ac ymroddedig yng Nghymru.

"Nid yw'n briodol, o angenrheidrwydd, i bobl fynd i'r carchar am gyflawni trosedd.

"Yr hyn y mae'n rhaid i ni geisio'i wneud yw ceisio'u hatal rhag gwneud hynny eto sef stopio aildroseddu fel y gallwn amddiffyn y cyhoedd.

"Rwy'n meddwl fod stopio aildroseddu, yn enwedig ymysg pobl iau, mor bwysig oherwydd os na wnawn hynny bydd gennym boblogaeth fwy yn cyflawni troseddau.

"Gall trosedd gael effaith drychinebus ar y dioddefwr, ac os gallwn helpu pobl i roi trefn ar eu bywydau a dod yn ddinasyddion da, gallwn leihau trosedd."



**David Evans**

David Evans, o Fae Colwyn, oedd Cadeirydd diwethaf Ardal Brawf Gogledd Cymru.

Cred y bydd ei gefndir mewn gwasanaethau ariannol hefyd o fudd iddo yn ei swydd newydd ar Fwrdd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru.

Meddai David: "Rydw i wastad wedi credu nad yw carchar yn datrys pethau – mae'n rhan o'r ateb, ond mae prawf hefyd yn rhan bwysig o'r ateb.

"Un o'r rhesymau dros fod eisiau bod yn rhan o'r gwasanaeth prawf oedd cyfrifoldeb cymdeithasol a'r teimlad fy mod eisiau rhoi rhywbeth yn ôl.

"Gyda'm gwybodaeth am ddiwydiant a rheolaeth, credwn y gallwn ddod â safbwynt gwahanol ac roedd hynny'n rhywbeth roedden nhw'n chwilio amdano pan ymunais i â'r bwrdd.

"Mae llawer o debygrwydd rhwng diwydiant a gwasanaeth cyhoeddus o ran yr angen i edrych ar gyllidebau a chynllunio ymlaen – a herio'r status quo.

"Nid yw newid yn beth drwg bob amser. Gall newid fod yn beth da a chreu gwell dyfodol ac rwy'n credu bod ffurfio Ymddiriedolaeth Prawf Cymru'n ddatblygiad cadarnhaol."



**Derek Gregory**

Nes iddo ymddeol wyth mlynedd yn ôl, bu Derek Gregory yn gweithio fel swyddog undeb llawn-amser am 35 o flynyddoedd, yn fwyaf diweddar fel Ysgrifennydd Rhanbarthol Unsain yng Nghymru.

Abertawe fu cartref Derek ers blynyddoedd lawer ac ymunodd â Bwrdd Prawf De Cymru yn 2004. Yn gynharach eleni cwblhaodd radd prifysgol mewn Gwyddorau Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys modiwl 12 mis mewn troseddeg.

Bu ei brofiad o gysylltiadau diwydiannol o gymorth yn ystod y broses o greu Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, ac mae'n credu mai dyma'r unig ffordd synhwyrol ymlaen.

Meddai Derek: "Efallai fod pobl yn edrych arna'i fel rhywun sydd wedi newid ei liw, ond nid yw hynny'n wir mewn gwirionedd.

Yn y gwasanaeth prawf, mae'r cyflogwyr a'r undebau yn rhannu nod cyffredin cryf o sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu gan staff sy'n derbyn tâl teg am eu gwaith.

"Rwy'n meddwl fod y Gwasanaeth Prawf yn eithriadol o bwysig oherwydd mae'n ymwneud â gweddnewid bywydau troseddwyr.

"Mae'r holl dystiolaeth yn dangos nad yw cloi pobl mewn carchardai yn newid pobl ond gall ymyriadau'r gwasanaeth prawf, ar y cyfan, helpu troseddwyr i gychwyn o'r newydd a lleihau aildroseddu.

Rwy'n meddwl fod adeg gyffrous a heriol dros ben o'n blaenau. Mae yna lawer o arfer da mewn gwahanol rannau o Gymru ac mae Ymddiriedolaeth Prawf Cymru'n darparu mecanwaith ar gyfer rhannu'r arfer da hwnnw."



# DIOGELU GWASANAETHAU LLEOL

**Brigitte Heller**

Mae Brigitte Heller, cyn ddylunydd ffasiwn gyda chymwysterau Rheoli Busnes a aned yn Awstria, sy'n byw ger Caerdydd, wrth ei bodd o gael ei phenodi i Fwrdd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru.

Bu'n byw yng Nghymru ers dros 30 o flynyddoedd ac yn ynad heddwch ers tro byd. Roedd Brigitte yn Bennaeth Polisi a Datblygu Cyngor Menter a Hyfforddi Cymreig, cyn dod yn Bennaeth Rhanbarthol Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 gydag ELWa (bellach yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Meddai: "Fel ynad heddwch, rwyf wastad wedi ymwneud â chosbi troseddwyr, ond fy niddordeb arbennig yw adsefydlu troseddwyr trwy addysg a hyfforddiant.

"Gyda'n gweithlu prawf gwych ac ymroddgar, rydym yn helpu troseddwyr i dorri allan o gylch dieflig troseddu. Mae addysg a hyfforddiant yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith yma a dyna lle mae fy nghefndir i'n bwysig.

"Mae creu Ymddiriedolaeth Prawf Cymru'n darparu cyfle rhagorol i sicrhau arbedion maint drwy fabwysiadu agwedd strategol gyda'r pwyslais ar ddarpariaeth leol."



**Phil Westwood**

Pan oedd yn iau arferai Phil Westwood, o Ben-hw, ger Cas-gwent, chwarae rygbi ar y lefel uchaf, fel asgellwr disglair i Lynebwy ochr yn ochr â'r cewri Cymreig Arthur Lewis a Denzil Williams.

Ar ôl ymddeol fel chwaraewr, parhaodd i chwarae rhan fawr yn y clwb ac roedd yn Gadeirydd am gyfnod.

Yn ei fywyd proffesiynol, bu Phil yn gweithio yn y diwydiant dur am 30 o flynyddoedd gan godi i fod yn Bennaeth Personél yng ngweithfeydd Port Talbot.


Ymunodd â Bwrdd Ardal Brawf Gwent bedair blynedd yn ôl ac ef oedd y Cadeirydd diwethaf.

Yn ôl Phil, mae wedi gweld bod chwaraeon, a rygbi yn enwedig, yn ogystal â dylanwad cyfoedion, yn gallu cael dylanwad cadarnhaol ar bobl ifanc sy'n debygol o droseddu neu wedi troseddu.

"Mae yna rai ardaloedd difreintiedig yng Ngwent ac rwyf wedi gweld pobl ifanc yn rhagori ar eu disgwyliadau drwy chwaraeon.

Meddai: "Y neges y mae'n rhaid i ni ei phwysleisio yw er bod pobl yn gallu gwneud camgymeriadau, mae croeso iddyn nhw yn y gymuned os ydyn nhw'n fodlon cydymffurfio â rheolau cymdeithas ac mae cyfle iddyn nhw wneud cyfraniad defnyddiol at gymdeithas ac osgoi bod ar y cyrion o hyd.

"Os gallwn leihau aildroseddu, bydd llai o droseddau a bydd hynny o reidrwydd yn golygu llai o ddioddefwyr."



*"Gall trosedd gael effaith drychinebus ar y dioddefwr, ac os gallwn helpu pobl i roi trefn ar eu bywydau a dod yn ddinasyddion da, gallwn leihau trosedd."*



# CYFARFOD Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO NEWYDD



Mae Prif Weithredwr Dros Dro newydd Ymddiriedolaeth Prawf Cymru wedi bod yn ymgynghorydd i'r Prif Weinidog Tony Blair ac wedi goruchwylio un o'r prosiectau uno mwyaf o fewn y gwasanaeth iechyd.

Bydd Margaret Edwards yn camu i'w swydd newydd ar 1 Ebrill ond mae eisoes wedi dechrau gweithio ar yr hyn fydd yn un o'r prosiectau uno mwyaf o ran maint a chymhlethdod yn y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw hynny'n debygol o'i digalonni ar ôl iddi dreulio'i gyrfa'n bennaf o fewn y GIG lle bu'n llywio'r uno i greu Awdurdod Iechyd Swydd Efrog a Humber fel Prif Weithredwr.

Roedd hynny'n cynnwys dod â thri awdurdod iechyd at ei gilydd i greu un a chyllideb o £9 biliwn a 120,000 o staff yn darparu gofal iechyd i bum miliwn a hanner o bobl.

Mae'r ffigyrau hynny'n gwneud i rai'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru edrych yn fach iawn ond mae'r fenyw 47 oed o Firmingham, sydd bellach yn byw yn Wakefield yn Swydd Efrog, yn edrych ymlaen at yr her.

Meddai: "Pan ofynnwyd i mi wneud hyn roedd yn brosiect mor ddiddorol fel fy mod yn falch dros ben o gael y siawns, a'r cyfle i weithio mewn ardal newydd fel Cymru, sy'n le mor ddiddorol.

"Swydd dros dro yw hon i mi nes penodi'r prif weithredwr newydd ond rwy'n meddwl y gallaf gyfrannu llawer i'r swydd a bod llawer o agweddau tebyg i weithio ar yr uno yn Swydd Efrog a Humber.

"Mae'r ddwy'n ardaloedd enfawr gyda dinasoedd mawr fel Sheffield a Leeds, cyn ardaloedd glo a dur yn ogystal â darnau gwledig iawn o gefn gwlad – ac roedd yna 46 o Aelodau Seneddol gyda David Blunkett yn y de, Ed Balls yn y canol a William Hague yn y gogledd."

Bydd Ms Edwards yn gweithio tri diwrnod yr wythnos, o Gaerdydd, ond bydd yn crwydro o gwmpas i weld staff ym mhob rhan o Gymru. Meddai: "Rwy'n cael fy nenu i'r sector cyhoeddus ac mae ei ethos yn bwysig dros ben i mi.

"Byddaf yn gweithio mewn sefydliad sy'n bodoli, fel y GIG, i ddod â budd a darparu gwasanaethau i bobl sy'n cael y lleiaf gan ein cymdeithas.

"Ni fyddaf yn ymgeisio i fod yn Brif Weithredwr ond rwy'n credu mai cael Ymddiriedolaeth Prawf Cymru mewn sefyllfa cystal â phosibl ar gyfer y Prif Weithredwr newydd yw fy ngwaith i."

Roedd Ms Edwards, sydd ar fin priodi ei phartner ers 11 mlynedd ym mis Gorffennaf, wedi cymryd egwyl dwy flynedd o'i gyrfa er mwyn treulio amser gyda'i dau lysfab, sydd bellach yn 16 ac 18 oed, yn Wakefield.

Ei swydd fwyaf diweddar oedd Pennaeth Cenedlaethol Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd y GIG yn Llundain, y swydd a gafodd ar ôl goruchwylio'r uno yn Swydd Efrog a Humber.

Ymunodd â'r GIG yn yr adran gyllid yn Norwich ar ôl ennill gradd mewn Economeg ym Mrifysgol East Anglia yn y ddinas. Symudodd i faes cynllunio cyn i'w gyrfa fynd â hi i Plymouth lle'r oedd yn Gyfarwyddwr Comisiynu.

Symudodd i fod yn Ddirprwy Brif Weithredwr ac yna'n Brif Weithredwr Ysbyty Heatherwood a Wexham yn Berkshire a oedd yn Ysbyty'r Flwyddyn y GIG gyda record hynod o dorri rhestrau aros.

Daeth hynny â hi i sylw'r Ysgrifennydd Iechyd ar y pryd, Alan Milburn, a aeth â hi i'r Adran Iechyd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol am bum mlynedd, pan oedd yn brif ymgynghorydd ar restrau aros i Tony Blair.

*"Rwy'n meddwl y gallaf gyfrannu llawer i'r swydd"*

***Margaret Edwards***

*Prif Weithredwr Dros Dro*

# SUT FYDD Y STRWYTHUR NEWYDD YN GWEITHIO

Bydd **Liz Rijnenberg, Cyfarwyddwr Darparu Lleol Dros Dro**, yn gofalu am y 10 Uned Darparu Lleol a fydd yn cyflwyno gwasanaethau'n lleol ar draws Cymru: "Gall yr Unedau Darparu Lleol ddarparu gwell gwasanaeth trwy eu datblygu i fod yn unedau awdurdodol dros ben sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu a rhanddeiliaid eraill.

"Agwedd o'r gwaelod i fyny yw hyn sy'n hanfodol er mwyn creu diwylliant busnes ac sy'n golygu y gellir rheoli gwasanaethau cefnogi ar raddfa fwy er mwyn sicrhau arbedion maint."



**Carol Moore, Cyfarwyddwr Ymyriadau a Datblygu Busnes Dros Dro** yw pennaeth y tair canolfan Ymyriadau sy'n seiliedig ar wasanaethau'r llysoedd ar draws Cymru ac sy'n delio â rhaglenni megis ad-dalu cymuned a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol: "Mae cydweithio yn creu gwerth a thrwy weithio ar y cyd gallwn ddarparu gwasanaethau newydd a gwell yn fwy effeithlon a chynhyrchiol.

"Prif bwrpas ymyriadau yw lleihau aildroseddu ond maent hefyd yn borth i ddatblygiad personol, ennill cymwysterau a sicrhau swyddi."



**Angela Cossins, Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro**, fydd yn gyfrifol am yr holl wasanaethau cefnogi sy'n ategu'r rheng flaen: "Mae angen i ni ddatblygu gweithlu gwirioneddol hyblyg sy'n gallu rhoi'r bobl iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn gyda'r partneriaid iawn.

"Nid ydym am weld craidd mawr canolog, biwrocrataidd – rydym am fod mor agos at y pwynt angen ag y gallwn."



# CYNRYCHIOLWYR YN DWEUD EU DWEUD

Cynhaliwyd cynhadledd hynod o lwyddiannus yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, gyda chynrychiolwyr o'r llu o sefydliadau a chyrff sy'n ymwneud â gwaith y gwasanaeth prawf yng Nghymru'n bresennol. Rhoi gwybod i randdeiliaid am y datblygiadau o fewn Ymddiriedolaeth Prawf newydd Cymru, a ddaeth i fodolaeth ar 1 Ebrill, oedd y nod.

**Mike Dunne, Cadeirydd newydd Cymdeithas Swyddogion Prawf Cenedlaethol Cymru-gyfan:**

"Roeddem yn gallu gweld y rhesymau dros yr uno ac rydym wedi helpu i'w cyfleu i'n haelodau.

"Mae'n sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn aros o fewn y sector cyhoeddus ac yn golygu y caiff llai o swyddi eu colli.

"Rhaid cyfathrebu ac ymgynghori'n briodol gyda'r staff ac os daliwn ati i siarad a gwrando yna gallwn arwain y ffordd wrth gyflwyno gwasanaethau prawf mewn ffordd newydd, sef y ffordd Gymreig."

**Gail Phillips, Cadeirydd Mainc Ynadon Caerfyrddin:**

"Mae pob lefel o wybodaeth yn bresennol yma heddiw ac mae'r ffordd y maen nhw wedi rhoi gwybod i ni am y broses wedi bod yn llwyddiannus iawn.

"Mae'r holl siaradwyr wedi bod yn ei ddweud yn eu ffordd eu hunain ond roedd y neges yn un gyson.

"O fewn cyfyngiadau'r gyllideb sy'n ein hwynebu i gyd rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol a siarad gyda'n gilydd.

"Fel ynadon, y peth olaf rydym am ei wneud yw rhoi pobl yn y ddalfa ac rwy'n credu'n gryf mewn adferiad yn y gymuned."

**Fergie MacDonald, Cadeirydd grŵp Cymru-gyfan UNSAIN:**

"Rydym wastad wedi cefnogi'r cysyniad o Ymddiriedolaeth Cymru-gyfan fel y ffordd orau ymlaen, nid yn unig o safbwynt cyflwyno gwasanaeth ond hefyd o ran cadw swyddi ein haelodau.

"Gwyddom fod yna bwysau ond mae yna gyfleoedd hefyd ac rydym am fod yn rhan o ddod â hyn i ben yn foddhaol."

**Steve Cross, Llywodraethwr, Carchar Brynbuga a Phrescoed yng Ngwent:**

"Bu dod â'r rhanddeiliaid at ei gilydd i drafod y daith y bydd angen i ni fynd arni yn ddiddorol ac yn dda iawn ac mae'r hyn a wnaed yn codi fy nghalon.

"Mae'n amlwg eu bod eisoes wedi gwneud cychwyn da arni ac mae'n glir i mi a'm cydweithwyr eraill yn yr ystafell y gellir sicrhau manteision trwy Ymddiriedolaeth Cymru-gyfan.

"Dyna'r unig ffordd i fynd, nid dim ond oherwydd mai dyna'r peth iawn i'w wneud ond oherwydd y manteision all ddod yn ei sgil i ni ac i ddefnyddwyr y gwasanaeth."

**Gareth Hicks, o Rwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru, Caerdydd:**

"Diddorol iawn a nawr rwy'n deall yr hyn sy'n digwydd yn y sefydliad newydd yn well.

"Rwy'n gweithio gyda phobl ar lawr gwlad ac mae'n braf gweld beth sy'n digwydd yn genedlaethol ond mae angen i ni sicrhau agwedd gyson.

"Siaradodd Huw Rowlands yn dda iawn. Mae'n siarad yr iaith ac yn deall safbwynt defnyddiwr y gwasanaeth a chefndir y bobl yma."











# PRAWF YN ACHUB FY MYWYD

Clywodd cynhadledd o randdeiliaid Ymddiriedolaeth Prawf newydd Cymru hanes teimladwy am y ffordd yr achubodd rhaglen ymyriadau'r gwasanaeth prawf fywyd a phriodas.

Roedd ei brofiadau fel milwr ifanc yng Ngogledd Iwerddon wedi creithio Huw Rowlands o Ynys Môn, a daeth allan o'r fyddin yn 22 oed gyda phroblemau difrifol yn rheoli ei dymer a effeithiodd ar ei fywyd a'i briodas.

Dywedodd Huw wrth y gynhadledd yn Llandrindod fod y Rhaglen Cam-drin Domestig Integredig (IDAP) wedi rhoi trefn ar ei fywyd: "Gogledd Iwerddon oedd fy Afghanistan a'm Irac i," meddai.

"Os yw cyffuriau neu alcohol yn creu problemau i chi mae yna lawer o help i'w gael ond rheoli fy hun a chredu ynof fi fy hun yw fy mhroblem i.

"Nid oeddwn yn credu y byddai IDAP yn gweithio ac es ati i ddangos nad oedd yn dda i ddim ond ar ôl rhyw ddau fodiwl sylweddolais ei fod yn dwyn ffrwyth.

"Roedd y newid ynof fi'n hollol anhygoel – byddai ffrindiau a theulu'n dod ataf a dweud, 'Beth sy'n wahanol amdanat ti? Dwyt ti ddim y boi blin roeddet ti'n arfer bod.'

"Newidiodd y cwrs yna fi. Sylweddolais mai fi sy'n dylanwadu ar bopeth. Mae dynion treisgar yn mynnu beio pawb arall – newidiodd fy holl ffordd o feddwl a dyna pam rwyf yma'n siarad gyda chi.

"Defnyddwyr y gwasanaeth fel fi fydd yn rhoi'r atebion sydd arnoch eu hangen i redeg y gwasanaeth prawf, pobl fel fi, ac nid cyrff proffesiynol eraill."

Erbyn hyn mae Huw yn mentora eraill sydd â phroblemau tebyg ac ychwanegodd: "Fy nod tymor hir yw bod yn un ohonoch chi, swyddog prawf neu hwylusydd ar y rhaglen IDAP, yn gweithio gyda phobl sy'n ymwneud â cham-drin domestig ac sydd â phroblemau gyda'u tymer.

"Rwyf wedi bod yn gweithio gyda bachgen ifanc sydd ddim yn siarad Saesneg yn dda iawn. Fel fi, dydi o ddim yn dweud popeth wrth ei swyddog prawf ond rwy'n siarad yr un iaith ag o, ac nid dim ond Cymraeg rwy'n ei feddwl."

Hoffai Huw weld mwy yn cael ei wneud i gyn-filwyr fel fo hefyd: "Does yna ddim byd i rywun fel fi sy'n gyn-filwr ac wedi profi rhywbeth fel Gogledd Iwerddon.

"Mae yna lawer i'w wneud i helpu'r hogia sy'n dychwelyd o Irac ac Afghanistan. Mae arnyn nhw angen help ac maen nhw'n gofyn amdano."

